


Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Taflen Ffeithiau



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Golwg gyffredinol ar Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru)



Y cefndir

Byd natur, ein tir, ein dŵr a'n haer yw'r adnoddau pwysicaf sydd gennym yng Nghymru. Ond erbyn hyn, mae mwy a mwy o bwysau ar yr adnoddau naturiol hynny, ac un o'r heriau mwyaf sy'n ein hwynebu yw dod o hyd i ffordd o sicrhau ecosystemau iach, cydnerth a chynhyrchiol ar gyfer y dyfodol, gan barhau i fodloni'r heriau o greu swyddi, tai a seilwaith. Bydd Deddf yr Amgylchedd yn ein helpu i ymateb i'r her honno.

Rheoli'n hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy

Hanfod rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yw rheoli'r adnoddau hyn mewn ffordd gydgyssylltiedig sy'n sicrhau canlyniadau gwirioneddol i'r amgylchedd, i bobl, yr economi a'n cymunedau. Ein nod yw manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae adnoddau naturiol Cymru yn eu rhoi inni, gan fynd ati ar yr un pryd i ddiogelu'n systemau naturiol a'u gwneud yn fwy abl i barhau i gynnig y manteision hynny yn y tymor hir.

Hanfod y Ddeddf yw'r angen i fabwysiadu ffordd newydd a mwy integredig o reoli'n hadnoddau naturiol yn gynaliadwy er mwyn cynnal cynaliadwyedd yn yr hirdymor.

Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith ailadroddus sy'n sicrhau bod rheoli'n hadnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ystyriaeth ganolog wrth wneud penderfyniadau.

- **Yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol** – mae'n rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) baratoi adroddiad a fydd yn rhoi asesiad o'n hadnoddau naturiol ac yn pwysu a mesur a ydym yn eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy ai peidio.
- **Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol** – mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru baratoi polisi cenedlaethol a fydd yn amlinellu'r blaenoriaethau, risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli'n hadnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Bydd canfyddiadau'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol yn cael eu hystyried wrth lunio'r polisi hwnnw.

- **Datganiadau ardal** – bydd CNC yn creu sylfaen dystiolaeth leol i helpu i roi'r blaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd sy'n cael eu nodi yn y Polisi Cenedlaethol ar waith a sut bydd CNC yn bwriadu mynd i'r afael â hwy.

Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi ffyrdd newydd i CNC reoli'n hadnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae cytundebau rheoli tir yn caniatáu i CNC weithio gyda pherchenogion tir i reoli eu tir mewn modd cynaliadwy. Mae'r cynlluniau arbrofol yn caniatáu i CNC dreialu ffyrdd newydd o weithio. Mae'r dyletswydd newydd yn y Bil mewn perthynas â bioamrywiaeth yn helpu i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru ac i sicrhau ei bod yn gydnerth yn y tymor hir.

Newid yn yr Hinsawdd

Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i bennu targedau ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a hefyd pennu cyllidebau carbon. Bydd hynny'n ein helpu i wneud mwy o gynnydd o ran cyrraedd ein prif dargedau a bydd yn helpu hefyd i wneud ein hamgylchedd yn fwy abl i ddygymod â thywydd eithafol. Bydd targedau statudol a fframwaith llywodraethu cryfach yn caniatáu inni werthuso cynnydd yn hynny o beth ac yn rhoi sicrwydd a fydd yn helpu i ysgogi buddsoddiad mewn economi carbon isel.

Bagiau siopa

Mae'r Ddeddf yn ehangu pwerau Gweinidogion Cymru er mwyn iddynt fedru gosod tâl am fathau eraill o fagiau siopa megis bagiau am oes, yn ogystal â'r tâl am fagiau untro, os bydd y dystiolaeth yn dangos bod cyflenwi a gwaredu'r mathau hynny o fagiau yn niweidio'r amgylchedd.

Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi dyletswydd ar fanwerthwyr i roi'r enillion net o'r tâl am fagiau siopa i achosion da sy'n gysylltiedig â amddiffyn neu wella'r amgylchedd. Yr unig eithriad yw os yw'r manwerthwr eisoes yn dymuno parhau â threfniadau sydd ganddyn nhw eisoes i roi eu helw i achos da nad yw'n ymwneud â'r amgylchedd.

Gwastraff

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno pwerau newydd er mwyn cynyddu'r deunyddiau a anfonir i'w hailgylchu, er mwyn gwella ansawdd y deunyddiau a fydd ar gael i'w hailgylchu, ac er mwyn sicrhau na fydd deunyddiau y gellid bod wedi'u hailgylchu yn cael eu gwastraffu. Mae'r pwerau newydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud y canlynol:

- I'w gwneud yn ofynnol i fusnesau a chyrrff eraill sy'n cynhyrchu gwastraff, e.e. y sector cyhoeddus, wahanu deunyddiau glân y gellir eu hailgylchu cyn iddynt gael eu casglu
- I'w gwneud yn ofynnol i gasglwyr gwastraff gasglu gwastraff ailgylchadwy ar wahân
- I wahardd llosgi deunyddiau y gellir eu hailgylchu mewn peiriannau llosgi gwastraff
- I wahardd busnesau a'r sector cyhoeddus rhag gwaredu gwastraff bwyd i garthffosydd.

Pysgodfeydd ar gyfer pysgod cregyn

Mae'r Ddeddf yn sicrhau bod amgylchedd morol Cymru yn cael ei reoli mewn modd mwy cynaliadwy. Mae'r cynnwys creu dau bŵer newydd ar gyfer Gweinidogion Cymru, sy'n rhoi mwy o reolaeth iddynt dros bysgodfeydd cregyn a mwy o hyder i ganiatáu deiliadaethau hirach ar gyfer pysgodfeydd cynaliadwy yn y dyfodol.

Trwyddedu Morol

Mae'r Ddeddf yn diwygio'r pwerau codi tâl presennol ar gyfer trwyddedau morol er mwyn i'r awdurdod trwyddedu morol fedru adennill mwy o gostau mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir ganddo.

Newidiadau eraill

Mae'r Ddeddf hefyd yn egluro'r gyfraith sy'n ymdrin â nifer o'r systemau rheoleiddiol presennol ar gyfer yr amgylchedd, gan gynnwys draenio tir a rheoli perygl llifogydd.

Yr amserlen

Daeth y Ddeddf yn gyfraith ym mis Mawrth 2016.

Rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am y Ddeddf ei hun ar wefan Llywodraeth Cymru:

www.llyw.cymru/deddfyramgylchedd

Gallwch hefyd danysgrifio i gael ein e-fwletin misol drwy anfon e-bost at:

NRBulletin@cymru.gsi.gov.uk